amddiffyn plant ym mhob man

Sefyllfa Un
Daeth modryb â phlentyn 12 oed i'r Deyrnas Unedig o dramor, gan addo addysg iddi. Fodd bynnag, ni chaniatawyd i'r plentyn fynd i'r ysgol ond yn hytrach cafodd ei gorfodi i weithio yn y tŷ a rhedodd i ffwrdd yn ddiweddarach.

Sefyllfa Dau
Daeth merch o Tsieina (14) ar ei phen ei hun a hawlio lloches ym maes awyr Caerdydd. Cafodd ei rhoi yng ngofal gwasanaethau cymdeithasol ond diflannodd 48 awr yn ddiweddarach o gartref ei gofalwr maeth.

Sefyllfa Tri
Darganfuwyd merch ifanc o Ddwyrain Ewrop (16) mewn sawna, yn gwerthu gwasanaethau personol. Mae'n dweud iddi ddod i'r Deyrnas Unedig gydag addewidion o swydd ar gyflog da. Ond pan gyrhaeddodd y DU, roedd ei 'hasiant' a dalodd am ei thocyn, wedi ei gwerthu i berchennog y sawna, gan fygwth trais yn ei herbyn os na fyddai'n gwneud fel y dymunai.

Sefyllfa Pedwar
Atgyfeiriwyd bachgen ifanc o Fietnam (15) at y Tîm Troseddu Ieuenctid ar ôl cael ei ddarganfod mewn tŷ oedd wedi'i drosi yn ffatri ganabis. Cyhuddir y bachgen o dyfu canabis a bod yn y DU yn anghyfreithlon.

Sefyllfa Pump
Aed â nifer o blant o Romania i ofal yr awdurdod lleol ar ôl canfod fod gwahanol oedolion wedi eu defnyddio i hawlio budd-dal drwy dwyll a'u gorfodi i ddwyn ar y stryd. Arestiwyd y fenyw a ddaeth â hwy i'r DU.